Cyngor Cymdeithas Botwnog

Rheoliadau Cyllidol

Mabwysiadwyd 13/3/17
Cofnod 99(3)

I'w fabwysiadwyd
9/3/20
Cofnod 94

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

RHEOLIADAU CYLLIDOL

Cyffredinol

1. Gwneir y Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 1996 a byddant yn rheoli'r modd y cynhelir trafodion cyllidol Cyngor Cymdeithas Botwnnog (a elwir yma wedi hyn 'y Cyngor') ac ni ellir eu newid neu'u hamrywio heb benderfyniad gan y Cyngor.
2. Bydd Swyddog Cyllidol Atebol (S.C.A.) y Cyngor a benodwyd yn briodol yn gyfrifol am weinyddu materion cyllidol y Cyngor mewn modd priodol a hynny dan gyfarwyddyd polisïau'r Cyngor.
3. Bydd y S.C.A. yn ymgymryd â'i ddyletswyddau/ei dyletswyddau'n unol â'r telerau a nodir ym mhenderfyniad y Cyngor a benododd ef/hi ac fel arall bydd yn gyfrifol am lunio gwybodaeth ynglŷn â rheoli cyllid.

Amcangyfrifon Blynyddol

4. Yn unol â gofynion Rhan IV o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, neu unrhyw ddarpariaeth statudol yn eu newid neu'n eu disodli, caiff amcangyfrifon manwl o incwm a gwariant ar wasanaethau refeniw, a derbyniadau a thaliadau ar gyfrif cyfalaf, eu paratoi bob blwyddyn gan yr S.C.A. ar gyfer eu cyflwyno i'r Cyngor a hynny ddim hwyrach na diwedd mis Chwefror ym mhob blwyddyn ariannol a bydd ef/hi yn argymell y Praesept a godir am y flwyddyn ariannol ddilynol. Ar ôl i'r Cyngor eu hystyried a'u newid, os bydd angen gwneud hynny, bydd y S.C.A. yn rhoi copi o'r amcangyfrifon cymeradwy i bob Aelod o'r Cyngor.

Rheoli'r Gyllideb

5. Bydd y cyllidebau cyfalaf a refeniw blynyddol yn sail ar gyfer rheolaeth gyllidol am y flwyddyn ddilynol, ac yn ystod y flwyddyn honno caiff yr S.C.A. ei awdurdodi/ei hawdurdodi i gymeradwyo trosglwyddo arian rhwng penawdau'r cyfrifon sydd ynddynt fel y bernir yn angenrheidiol neu'n ddymunol.
6. Ni ellir gwario ond hyd at y symiau sydd wedi eu cynnwys ym mhob pennawd o'r cyfrifon yn y gyllideb refeniw, onid yw'r S.C.A. wedi awdurdodi trosglwyddiadau priodol ac wedi rhoi gwybod i'r Cyngor am y trosglwyddiadau hynny.
7. Ni fydd y ffaith bod rhywbeth wedi ei gynnwys at ddiben neilltuol yn y gyllideb refeniw flynyddol yn golygu bod gwariant wedi ei awdurdodi ar ei gyfer. Bydd angen cymeradwyaeth benodol ar gyfer gwariant o'r fath trwy benderfyniad gan y Cyngor neu benderfyniad cofnodedig a wnaed dan bwerau a ddirprwywyd yn briodol ar gyfer unrhyw eitem o wariant refeniw a wneir, ac eithrio'r gwariant beunyddiol a achosir wrth weinyddu gwaith y Cyngor.
8. Er gwaethaf telerau Rheoliad 7 uchod, caiff y Clerc/S.C.A. (gan ymgynghori gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor, neu unrhyw ddau Aelod arall o'r Cyngor yn eu habsenoldeb) achosi gwariant ar ran y Cyngor sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud gwaith atgyweirio, adnewyddu neu unrhyw waith arall sydd o gymaint o frys fel bod rhaid ei wneud ar unwaith, p'un ai a oes darpariaeth yn y gyllideb ar

gyfer gwariant o'r fath ai peidio, yn amodol ar o £500 (neu swm arall a gymeradwyir gan y Cyngor o dro i dro). Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw gamau o'r fath cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.

9. Os achosir gwariant yn unol â Rheoliad 8 uchod ac nid oes modd talu'r swm angenrheidiol o arbedion a wneir yn rhywle arall yng nghyllideb gymeradwy'r Cyngor, yna dylid ei dalu o gronfa wrth gefn y Cyngor neu, os nad oes cronfa wrth gefn ar gael, bydd yn amodol ar ddarpariaethau amcangyfrif atodol a gymeradwyir gan y Cyngor.

10. Ni ddylid gwneud unrhyw wariant mewn perthynas ag unrhyw brosiect cyfalaf ac ni ddylid arwyddo contract na derbyn tendr a fyddai'n golygu gwariant ar y cyfrif cyfalaf oni fydd y Cyngor yn fodlon bod y cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael, neu fod modd cael y gymeradwyaeth angenrheidiol i fenthyg.

11. Caiff yr holl waith cyfalaf ei weinyddu'n unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Cyllidol y Cyngor ynglŷn â chontractau.

12. Bydd y S.C.A. yn cyflwyno i'r Cyngor, yn rheolaidd dair gwaith y flwyddyn, ddatganiadau cyllidol sy'n dangos y gwir incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb arfaethedig.

13. Bydd yr S.C.A. yn cysoni pob un o gyfrifon y Cyngor gyda'r banc yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ariannol a bydd yn cyflwyno adroddiadau chwarterol am hynny i'r Cyngor.

Cyfrifyddu ac Archwilio

14. Caiff holl ddulliau gweithredu cyfrifyddol a chofnodion cyllidol y Cyngor eu penderfynu gan yr S.C.A. yn unol â Rheoliadau Cyfrifyddu ac Archwilio 1996 neu Reoliadau sy'n newid neu'n disodli'r Rheoliadau hynny.

15. Bydd yr S.C.A. yn gyfrifol am gwblhau cyfrifon blynyddol y Cyngor cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a bydd yn eu cyflwyno i'r Cyngor ac yn rhoi adroddiad iddo amdanynt.

16. Bydd yr S.C.A. yn gyfrifol am gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol ar gyfer gwaith cyfrifyddol a chyllidol a gwaith arall a wneir gan y Cyngor, yn unol â gofynion Rheoliad 5 o Reoliadau Cyfrifyddu ac Archwilio 1996. Bydd gan yr S.C.A. yr hawl i gael gan unrhyw Aelod o'r Cyngor unrhyw ddogfennau o eiddo'r Cyngor sy'n ymwneud â'i gofnodion/chofnodion cyfrifyddu neu gofnodion eraill y crêd yr S.C.A. bod eu hangen at y diben o archwilio a bydd yn rhoi i'r S.C.A. bob gwybodaeth ac eglurhad y bydd yr S.C.A. yn barnu bod eu hangen at y diben hwnnw.

Trefniadau Bancio a Sieciau

17. Caiff trefniadau bancio'r Cyngor eu gwneud gan yr S.C.A. a'u cymeradwyo gan y Cyngor.

18. Dylai'r S.C.A. baratoi rhestr o'r taliadau ariannol a'i chyflwyno, ynghyd â'r anfonebau a'r talebau perthnasol ac yn y blaen, i'r Cyngor. Os yw'r rhestr yn gywir caiff ei hawdurdodi gan benderfyniad o eiddo'r Cyngor.

19. Dylai dau Aelod o'r Cyngor arwyddo sieciau'r cyfrif cyffredinol. Yn ogystal ag arwyddo'r sieciau, dylai'r holl lofnodwyr nodi llythrennau blaen eu henwau ar eu bonion er mwyn ardystio bod y sieciau a'r bonion dan sylw'n cytuno. Hefyd dylai'r llofnodwyr eu bodloni eu hunain ar sail y gwaith papur ategol fod symiau'r sieciau'n hafal â'r symiau sydd i'w talu. Yn ogystal dylai'r S.C.A. gydarwyddo sieciau fel y bydd y swyddog hwnnw'n medru sicrhau na chaiff taliadau eu gwneud heb eu hawdurdodi'n briodol gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor a thrwy

statud, gan roi cyfrif am y cyfrifoldeb tra phwysig a roddir ar y swyddog hwnnw yn y cyswllt hwnnw, fel y bydd ganddo/ganddi statws digonol ar ran y Cyngor mewn trafodion gyda'i fancwyr. Bydd yr S.C.A. yn trefnu mandad banc yn unol â hynny.

20.

Talu Cyfrifon

21. Ar wahân i daliadau arian parod caiff pob taliad ei wneud drwy siec neu archeb arall a godir trwy fancwyr y Cyngor.
22. Caiff yr holl anfonebau eu harchwilio, eu dilysu a'u hardystio gan yr S.C.A. Cyn ardystio anfoneb, bydd yr S.C.A. yn ei fodloni ei hunan bod y gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r anfoneb yn cyfeirio atynt wedi eu derbyn, eu gwneud, eu harchwilio a'u cymeradwyo.
23. Bydd yr S.C.A. yn archwilio anfonebau i sicrhau eu bod yn gywir yn rhifyddol a bydd yn eu codio yn ôl y pennawd gwariant priodol. Bydd yn gwneud popeth a all i dalu pob anfoneb a gyflwynir, os ydynt yn gywir, cyn pen 30 o ddiwrnodau ar ôl eu derbyn, ar yr amod bod cyfarfod yn y cyfnod hwnnw lle bydd modd eu cymeradwyo ar gyfer eu talu gan y Cyngor, ac os nad oes cyfarfod ar gael, bydd yn eu talu heb oedi afresymol ar ôl cyfarfod nesaf y Cyngor.
24. Caiff yr holl anfonebau sydd wedi eu hardystio'n briodol eu rhoi ar y rhestr a nodir ym mharagraff 19 uchod.
25. Bydd y Cyngor yn rhoi swm priodol o arian parod i'r S.C.A. at y diben o dalu costau gweithredol a chostau eraill (postio ac yn y blaen) Bydd yr S.C.A. yn cadw cofnod o'r arian parod y bydd yn ei dderbyn a'r taliadau a wna gydag ef.

Talu Cyflogau

26. Bydd cyflog y Clerc a'r Swyddog Cyllidol Atebol, a lwfansau a gymeradwywyd yn flaenorol ac yn y blaen, yn cael eu talu gan y Cyngor bob chwe mis gyda siec, ac fe'i nodir ar y rhestr o daliadau ariannol a gyflwynir i'r Cyngor dan baragraff 18 uchod.

Benthyciadau a Buddsoddiadau

27. Caiff pob benthyciad a buddsoddiad eu cyd-drafod gan yr S.C.A. yn enw'r Cyngor ac fe gânt eu pennu am gyfnod penodol yn unol â pholisi'r Cyngor. Dylid hysbysu'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newidiadau a wneir i fenthyciadau a buddsoddiadau.
28. Bydd pob buddsoddiad ariannol a wneir dan reolaeth y Cyngor yn enw'r Cyngor.
29. Caiff pob benthyciad ei wneud yn enw'r Cyngor.
30. Dylai pob tystysgrif fuddsoddi a dogfennau eraill perthnasol gael eu cadw gan yr S.C.A., oni fydd y Cyngor yn penderfynu'n wahanol.

Incwm

31. Bydd yr S.C.A. yn gyfrifol am gasglu pob swm sy'n ddyledus i'r Cyngor ac fe'i gwneir dan ei oruchwyliaeth/ei goruchwyliaeth.
32. Dylid hysbysu'r S.C.A. am fanylion pob taliad a godir am waith a wneir, am wasanaethau a ddarperir neu am nwyddau a gyflenwir, ac ef/hi fydd yn gyfrifol yn y pen draw am gasglu'r holl gyfrifon sy'n ddyledus i'r Cyngor.
33. Bydd y Cyngor yn adolygu'r holl ffioedd a thaliadau'n flynyddol, ar ôl i'r Clerc/S.C.A. gyflwyno adroddiad amdanynt.
34. Bydd yr S.C.A. yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw ddyledion drwg.

35. Caiff yr holl symiau a dderbynnir ar ran y Cyngor naill eu talu i'r S.C.A. ar gyfer eu bancio neu'u bancio yn ôl cyfarwyddyd yr S.C.A. Yn ddiwahân dylid adneuo pob swm a dderbynnir gyda bancwyr y Cyngor cyn amled ag y barna'r S.C.A. bod angen gwneud hynny.
36. Dylid rhoi cyfeiriad at y ddyled berthynol, neu fel arall dylid nodi tarddiad pob siec, ar y slip talu i mewn.
37. Ni ddylid ariannu sieciau personol o arian a ddelir ar ran y Cyngor.

Archebion am Waith, Nwyddau a Gwasanaethau

38. Bydd yr S.C.A. yn cyflwyno Archeb Swyddogol neu lythyr ar gyfer yr holl waith, nwyddau a gwasanaethau, oni fwriedir gwneud contract ffurfiol neu y byddai Archeb Swyddogol yn amhriodol (e.e. wrth brynu gydag arian parod ac yn y blaen). Dylid cadw copïau o'r Archebion a gyflwynir.
39. Caiff llyfrau archebion eu rheoli gan yr S.C.A.
40. Bydd y Clerc/S.C.A. yn gyfrifol am sicrhau'r gwerth gorau am arian ar bob adeg. Bydd yn sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ac yn ymarferol, y ceir y telerau gorau posib ar gyfer yr holl drafodion.

Contractau

41. Mae'r dulliau gweithredu ar gyfer gosod contractau fel y maent wedi eu gosod yn Rheolau Sefydlog y Cyngor.
42. Os bydd contractau'n caniatáu talu mewn rhandaliadau, bydd yr S.C.A. yn cadw cofnod o'r holl daliadau hynny. Mewn unrhyw achos os amcangyfrifir bod cyfanswm cost y gwaith a wneir dan gontract, ac eithrio cymalau sy'n ymwneud ag amrywiadau, yn fwy na swm y contract o 5% neu ragor, dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor.
43. Dylai unrhyw amrywiad, ychwanegiad neu hepgoriad i gontract gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr S.C.A., gan hysbysu'r Cyngor os yw'r gost derfynol yn debygol o fod yn fwy na'r ddarpariaeth gyllidol a wnaed ar ei gyfer.

Storfeydd a Chyfarpar

44. Dylid cael nodiadau dosbarthu ar gyfer unrhyw nwyddau a dderbynnir i'w storio ac, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol, dylid gwirio nwyddau o ran eu hansawdd ar yr adeg y derbynnir hwy.
45. Dylid cynnal stociau yn gyffredinol ar y lefelau sylfaenol sy'n unol â'r gofynion gweithredol.

Eiddo a Stadau

46. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau priodol i gadw gweithredoedd teitl pob eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor. Bydd yr S.C.A. yn sicrhau y cedwir cofnod o bob eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor, gan gofnodi lleoliad, maint, cynllun, cyfeirnod, manylion pwrcasu, natur y buddiant, tenantiaethau a roddwyd, rhenti sy'n daladwy a'r pwrpas y'i delir, yn unol â gofynion Rheoliad 4(3)(b) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 1996, neu'r gofynion cyfatebol mewn Rheoliadau dilynol.
47. Ni ddylid gwerthu, lesio na chael gwared ar eiddo mewn unrhyw fodd arall heb ganiatâd y Cyngor.

Yswiriant

48. Bydd yr S.C.A. yn trefnu pob yswiriant ac yn cyd-drafod pob hawliad a wneir ar yswirwyr y Cyngor.
49. Bydd yr S.C.A. yn hysbysu'r Cyngor yn brydlon am bob risg, eiddo a cherbyd newydd y bydd angen eu hyswirio ac am bob newid a fyddo'n effeithio ar yr yswiriannau presennol.
50. Bydd yr S.C.A. yn cadw cofnod o holl yswiriannau'r Cyngor a'r eiddo a'r risg sy'n cael eu hyswirio ganddynt a bydd yn ei adolygu'n flynyddol.
51. Hysbysir yr S.C.A. am unrhyw golledion, atebolrwydd neu ddifrod neu unrhyw ddigwyddiad sy'n debygol o arwain at wneud hawliad.
52. Dylid cynnwys holl weithwyr priodol y Cyngor mewn yswiriant gwarantu cywirdeb addas.

Diwygio'r Rheoliadau Cyllidol

53. Bydd dyletswydd ar y Cyngor i adolygu ei Reoliadau Cyllidol o dro i dro a gwneud unrhyw ddiwygiadau iddynt a fo'n ddymunol.

L.C.L 06.07.02